

CAN O GLOD

1
5.109
MRS. JENKINS, MERTHYR,

AM EI

MEDRUSRWYDD A'I PHARODRWYDD
MEWN MEDDYGINIAETH.

THE following Welsh Stanzas were inserted in the MERTHYR GUARDIAN, June 17th, 1837, at the request of the author, an old miner, who was thus anxious to acknowledge his gratitude to Mrs. JENKINS, druggist, of this town, for her humane and efficient prescription to him, during a protracted period of illness.

Tôn—"Codiad yr Ehedydd."

Fwyn awen gymen goeth,
O dere'n ddwys, a dyro'n ddoeth,
Iawn gyfoeth am un gân :—
Cân gweithia cyn y gwys,
Mae'n bwyth o barch, mae'n beth o bwys,

Mewn glwys oleuni glân ;—
Gwraig rinweddol, gall a siriol,
A rhagorol yw ei gwaith ;—
Myn ei pharchu fel mae'n haeddu,
Ac ei dal i fynu'n faith ;
Meddyges gaf drwy law ein Naf,
Ragoraf rhag un graith.

Er chwilio, rhodio'n rhwydd,
Y ddaear lawn, neu ddwr drwy lwydd,
Ni chawn i'n gwydd yn gu,
Ond ambell, ambell un,
O 'w'llys da i wella dyn,
Na dilyn fawr o'i du ;
Ond ym Merthyr er ein cysur,
Cu a difyr y caed un
Sy'n rhagori mewn daioni
Er ein gweini, rhag drwg wyn ;
Llwyddiannus bur rhag poen a chur,
Ei llafur yn mhob llun,

Pob clefyd enbyd un,
Pob dolur draw a ddaw ar' ddyn
Hi'n sydyn, wrth ei swydd,
Er llwyddiant a'n gwellha,
Ped f'ai mor drwm a'r plwm y pla,
Modd gwiwdda gyr o'n gwydd :
Er gorchestion aml feddygon,
Amryw droion yn y dre',
Ffaelu'n bendant gyrhaedd moliant,
Er eu llwyddiant, goreu lle ;
Mae'r wraig heb gam, mewn llwydd, bob llam,
Yn ddiinam, a'i llaw dde.

Boed eirios hiroes hardd,
O agwedd bur yw gweddi'r bardd,
Heb wahardd iddi'n wych
I bara etto'n bur,
Yn lwys ei gwaith, rhag loes neu gur,
O natur rhyw ddrwg nych ;
MRS. DIRION, JENKINS wiwlon,
A'i gorchwylion tra f'o chwyth,
A wir gofir ym mhob brodir,
A mwyn berchir felly byth ;
A hi uwch ben, mewn nefoedd wen,
Dda lawen yn ddilyth.

RICHARD JONES,

NEU,

RHYDDERCH GWYNEDD, A'I CANT.

X205213005